# PWYLLGOR CRAFFU PARTNERIAETHAU

Cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Craffu Partneriaethau a gynhaliwyd yn by video conference, Dydd Iau, 4 Tachwedd 2021 am 10.00 am.

## YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Joan Butterfield, Rachel Flynn, Pat Jones, Christine Marston, Melvyn Mile, Rhys Thomas, David Williams a/ac Emrys Wynne (Is-Gadeirydd)

## HEFYD YN BRESENNOL

Cyfarwyddwr Corfforaethol: Cymunedau (NS), Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd (GW), Pennaeth Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd (EJ), Pennaeth Cyllid ac Eiddo (SG), Swyddog Arweiniol Datblygu Economaidd a Busnes (GT), Rheolwr Cymorth Busnes (PB), Rheolwr Traffig, Parcio a Diogelwch y Ffyrdd (MJ), Uwch Beiriannydd Diogelwch y Ffyrdd a Chludiant Cynaliadwy (BW-J), Cydlynydd Craffu (RE), Gwesteiwr Zoom (KJ) a Gweinyddwr Pwyllgorau (SLW).

Mr Stuart Davies (Preswylydd Llangollen)
Rod Urquart, Civica

Roedd yr Aelodau Arweiniol, y Cynghorwyr Brian Jones a Julian Thompson-Hill yn bresennol ar gais y Pwyllgor.

**Arsylwyr -** y Cynghorwyr Huw Hilditch-Roberts, Bobby Feeley, Tina Jones, Meirick Lloyd Davies a Tony Thomas.

## 1 YMDDIHEURIADAU

Cafwyd ymddiheuriad am absenoldeb gan y Cynghorydd Jeanette Chamberlain-Jones (Cadeirydd) ac Ann Davies.

Estynnodd y Pwyllgor eu dymuniadau gorau i'r Cadeirydd am wellhad buan a llwyr yn dilyn ei harhosiad diweddar yn yr ysbyty.

Yn absenoldeb y Cadeirydd, cadeiriodd yr Is-gadeirydd y cyfarfod.

## 2 DATGAN CYSYLLTIADAU

Ni ddatganwyd unrhyw gysylltiadau personol na rhai sy'n rhagfarnu ar y pwynt hwn mewn perthynas ag unrhyw rai o'r eitemau busnes sydd i'w trafod. Datganodd y Cynghorydd Huw Hilditch-Roberts gysylltiad personol yn ystod y drafodaeth gydag eitem fusnes 5, fel perchennog busnesau mewn dwy o drefi'r sir.

## 3 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Nid oedd unrhyw faterion brys wedi'u codi gyda'r Cadeirydd cyn y cyfarfod.

## 4 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Craffu Partneriaethau a gynhaliwyd ar 16 Medi 2021.

**Materion yn codi –**

**Eitem Fusnes 4 'Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych (CGGSDd)'** – Dywedodd y Cydlynydd Craffu (CC) y cafwyd gwybodaeth gan CGGSDd yn nodi bod disgwyl i Neuadd Farchnad Rhuthun ar ei newydd wedd ailagor yn ystod pythefnos cyntaf mis Rhagfyr, gyda'r union ddyddiad i'w gadarnhau. Roedd gwefan newydd CGGSDd wrthi'n cael ei datblygu ac roedd disgwyl iddi gael ei lansio at ddiwedd y flwyddyn. Byddai'r sefydliad yn cynnal ei Gyfarfod Blynyddol ar 30 Tachwedd 2021, ac roedd gwahoddiad wedi'i anfon i bob budd-ddeiliaid.

**Eitem fusnes 5 'Partneriaeth Diogelwch Cymunedol'** – Atgoffwyd yr aelodau y byddai cynrychiolwyr yr Heddlu yn mynychu sesiwn Friffio'r Sir ym mis Tachwedd 2021 i drafod eu gwaith yn mynd i'r afael â Llinellau Cyffuriau a throseddau eraill sy'n ymwneud â chyffuriau yn Sir Ddinbych.

Yn amodol ar yr uchod:

***PENDERFYNWYD*** *derbyn a chymeradwyo cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Craffu Partneriaethau a gynhaliwyd ar 16 Medi 2021 fel cofnod cywir.*

## 5 CYNLLUN ADFER CANOL TREFI YN DILYN COVID A MENTRAU ARDRETHI ANNOMESTIG CENEDLAETHOL

Cyflwynodd yr Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol, y Cynghorydd Julian Thompson-Hill, adroddiad ar y Cynllun Adfer Canol Trefi yn dilyn Covid a Mentrau Ardrethi Annomestig Cenedlaethol (a ddosbarthwyd ymlaen llaw).

Roedd yr adroddiad yn rhoi manylion nifer yr eiddo busnes gwag sydd yna yng Nghanol y Trefi a mentrau Ardrethi Annomestig Cenedlaethol (NNDR). Roedd yr adroddiad hefyd yn amlygu'r heriau y mae busnesau canol tref yn eu hwynebu ledled y sir a'r dulliau sy'n cael eu defnyddio i fynd i'r afael â'r rhain.

Er bod cyfanswm yr Eiddo Gwag o fewn ardal y Cyngor wedi cynyddu o 267 eiddo (Ebrill 2020) i 294 eiddo (Medi 2021), mae cyfanswm eiddo Ardrethi Busnes hefyd wedi cynyddu o 4,361 eiddo (Ebrill 2020) i 4,455 eiddo (Medi 2021). Mae'r adeiladau gwag yn cynrychioli 6.7% o'r 4,455 o eiddo Ardrethi Busnes cyffredinol.

Mae yna wahanol eithriadau rhag ardrethi eiddo gwag, e.e. y cyfnod eithriad cychwynnol o 3 neu 6 mis, eiddo y mae ei berchennog yn destun achos ansolfedd, eiddo y mae ei werth ardrethol yn is na'r trothwy taladwy, adeiladau rhestredig, tir, mastiau telathrebu ac eiddo y gwaherddir ei feddiannu yn ôl y gyfraith. Roedd Atodiad 1 yr adroddiad yn dangos dadansoddiad o'r eiddo gwag a'r eithriadau cysylltiedig.

Roedd yna ddwy fenter allweddol gan Lywodraeth Cymru (LlC) yn cynnig cymorth i ddosbarthiadau penodol o Fusnesau drwy gynlluniau rhyddhad. Byddai'r mentrau hyn yn cynnig gostyngiad yn yr Ardrethi Busnes neu hyd yn oed yn eu dirymu.

Dyma'r ddau gynllun:

- Y Cynllun Rhyddhad Ardrethi Busnesau Bach, sy'n cynnig hyd at 100% o ryddhad i Fusnesau sydd â Gwerth Ardrethol o dan £6,000, a rhyddhad ar raddfa i fusnesau sydd â Gwerth Ardrethol rhwng £6,001 a £12,000.
- Y Cynllun Rhyddhad Ardrethi Manwerthu, Hamdden a Lletygarwch, sy'n cynnig gostyngiad o 100% mewn Ardrethi Busnes i Fusnesau cymwys yn 2020/21 a 2021/22.

Roedd yna ddewis pellach i Awdurdodau Lleol roi gostyngiad yn yr ardrethi taladwy, gan ddefnyddio'r grymoedd a roddwyd o dan Ddeddf Lleoliaeth 2011. Byddai'n gwneud hyn drwy ddyfarnu rhyddhad yn ôl disgresiwn. Fodd bynnag, byddai cost lawn unrhyw ddyfarniad a roddwyd o dan y cynllun hwn yn cael ei dalu gan y Cyngor.

Problem arall gyda dyfarniad o dan y Ddeddf Lleoliaeth oedd y gallai Busnesau eraill hawlio bod y Cyngor wedi creu amgylchedd gwrth-gystadleuol am ei fod yn rhoi cymhorthdal i rai trethdalwyr, gan roi eraill dan anfantais drwy wneud hynny.

Er bod cynlluniau rhyddhad ar gael, roedd siopau wedi cau yn lleol ac yn genedlaethol, a arweiniodd at nifer o eiddo gwag. Roedd pedwar rheswm dros hyn:

- Er bod yr Ardrethi Busnes wedi'u gostwng, ni welwyd gostyngiad cyfwerth mewn rhenti eiddo ac mewn nifer o achosion, nid oedd y landlordiaid wedi cynnig gostyngiad mewn rhent.
- Roedd rhai cwmnïau mawr wedi symud siopau unigol i eiddo mwy, e.e. bu i Carphone Warehouse gau eu siopau ym Mharc Manwerthu Prestatyn ac yn y Rhyl, a'u cynnwys yn yr eiddo mwy ym Mharc Manwerthu Clwyd yn y Rhyl.
- Roedd unedau siopau eraill hefyd wedi cau ac wedi'u cynnwys mewn siopau eraill, fel Argos yn siop Sainsbury's neu Costa Coffee yn rhan o garej.
- Mae'r newid i siopa ar-lein wedi cynyddu ymhellach yn sgil Covid-19. Mae nifer o fusnesau, banciau yn enwedig, wedi cau nifer o ganghennau am fod pobl yn defnyddio gwasanaethau ar-lein.
  Yn ogystal, mae cwsmeriaid bellach yn gwneud llawer mwy o ddefnydd o siopau manwerthu fel mannau casglu neu ollwng, ar ôl archebu'r nwyddau ar y rhyngrwyd.

Mae data ar nifer yr ymwelwyr i'r trefi i'w weld yn Atodiad 3. Mae'r data'n dangos yr effaith negyddol amlwg y mae Covid-19 wedi'i gael ar ganol trefi yn sgil canllawiau'r llywodraeth ar gyfyngiadau masnachu a theithio.

Roedd y Tîm Datblygu Economaidd a Busnes (DEB) wedi comisiynu arolwg busnes er mwyn cael dealltwriaeth o'r heriau roedd busnesau'n eu hwynebu yn sgil Covid-19. Trefnwyd y lansiad i gyd-fynd â diwedd y cyfnod ffyrlo er mwyn cael gwell dealltwriaeth. Bydd adroddiad ar y canfyddiadau ar gael yn gynnar yn 2022.

Cynigiodd rhaglen thematig Trawsnewid Trefi becyn cymorth hyblyg ac eang i Awdurdodau Lleol yng Nghymru, gyda'r nod o adfywio canol trefi ledled Cymru.

Roedd y rhaglen yn dilyn dull ‘Canol Trefi yn gyntaf' o adfywio a chafodd ei chyflwyno a’i blaenoriaethu ar lefel ranbarthol. Yn achos Gogledd Cymru, goruchwyliwyd y blaenoriaethu gan Grŵp o Swyddogion Adfywio Rhanbarthol, oedd yn cynnwys y chwech awdurdod lleol. Mae prosiectau a ddarperir drwy’r pecyn hwn ar hyn o bryd yn cynnwys Stryd y Castell Llangollen 2020, Hummingbird Dinbych, Marchnad y Frenhines Cam 1 a Phorth Canol Tref y Rhyl Cam 1.

Roedd y tîm DEB yn cefnogi’r cais ar gyfer Cronfa Codi’r Gwastad. Diben y Gronfa hon oedd buddsoddi mewn seilwaith, gan gynnwys adfywio canol trefi a strydoedd mawr, gwella cludiant lleol a buddsoddi mewn asedau diwylliannol a threftadaeth.

Mae Llywodraeth Cymru wedi dewis y Rhyl fel un o bedair tref beilot ar gyfer y Gronfa Entrepreneuriaeth Canol Tref. Roedd y gronfa yn cynnig hyd at £10,000 y busnes mewn refeniw i sefydlu neu adleoli yn y dref. Hyd yma, mae 22 o fusnesau wedi mynegi diddordeb, ac mae’r ceisiadau yn cael eu prosesu gan Busnes Cymru.

Yn ystod y trafodaethau, codwyd y pwyntiau canlynol:

- Yn ystod cyfnodau prysur yn y flwyddyn, roedd ambell ardal yn gweld nifer uchel o ymwelwyr, ac awgrymwyd y gallai cludiant o un dref i’r llall i ymwelwyr leddfu achosion o dorfeydd yn heidio i’r un mannau poblogaidd.
  Cadarnhawyd bod swyddogion yn edrych ar ddewisiadau creadigol i annog ymwelwyr i grwydro gwahanol drefi, gan gynnwys cysylltu â gweithredwyr masnachol i drafod y posibilrwydd o gludiant.
- Cadarnhawyd bod mynd i’r afael ag eiddo busnes gwag a’u llenwi yn flaenoriaeth i CSDd a Llywodraeth Cymru.
- Awgrymwyd y gallai cyflwyno’r wybodaeth ddiweddaraf yn rheolaidd ym mhob un o gyfarfodydd Grwpiau Ardal yr Aelodau (GAA) fod yn ffordd ymarferol o gyfleu gwybodaeth i bob aelod, yn hytrach nag aros i eitem gael ei chyflwyno yn y Pwyllgor Craffu.
  Cadarnhaodd y swyddogion y gellid darparu diweddariad rheolaidd (e.e. bob 3 mis) i gyfarfodydd GAA, ac y gallai’r wybodaeth honno gynnwys y diweddaraf am brosiectau adfywio a mentrau Cronfa Codi’r Gwastad.
- Roedd siopau dros dro yn cael eu treialu yn y Rhyl.
  Byddai’r rhain yn rhoi cyfle i fasnachwyr bach a busnesau newydd arddangos eu cynnyrch a’u busnesau.
- Roedd annog busnesau o gyrion y dref i ddod i mewn i ganol y dref yn un o flaenoriaethau Llywodraeth Cymru.
  Roedd Llywodraeth Cymru yn rhedeg cynllun o’r enw “Canol Trefi yn Gyntaf”, a bydd y wybodaeth honno'n cael ei rhannu â'r aelodau. Roedd y Cynllun Canol Trefi’n Gyntaf yn cysylltu â gwaith y Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) ar gyfer dyfodol Sir Ddinbych.
- Holwyd tybed a oedd rhai busnesau’n gyndyn o ymuno â chynlluniau neu newid eu horiau gweithredu neu fodelau busnes er mwyn manteisio ar arferion byw cyfoes, y mae rhai ohonynt wedi newid yn sylweddol ers cychwyn y pandemig, ond cadarnhawyd y byddai busnesau’n cael anogaeth i addasu.
  Roedd CSDd am gynnal arolwg penodol mewn perthynas â hyn, a byddai’r canlyniadau’n cael eu rhannu â’r aelodau.
- Y ddau Brosiect Digidol oedd:

- Trefi SMART MaybeTech – Byddai'r prosiect yn cael ei redeg ar y cyd â Menter Môn, Ardal Gwella Busnes y Rhyl a'r darparwr technoleg, MaybeTech, ac yn cynnig platfform digidol i fusnesau canol tref y Rhyl.
  Dewiswyd y Rhyl fel lleoliad peilot ar gyfer mabwysiadu technoleg newydd i wella cystadleurwydd a chynaliadwyedd y dref. Roedd y platfform yn cynnig data craff i fusnesau i'w helpu i lywio penderfyniadau ar adfer a thyfu eu busnes.
- Cynllun Grant Digidol Cyngor Sir Ddinbych – Roedd y cynllun yn cynnig cymorth ariannol i fusnesau fabwysiadu technoleg ddigidol er mwyn gwella cynhyrchiant, sefydlogrwydd a thwf.
  Roedd y cynllun ar agor i fusnesau ledled y sir oedd yn fodlon cynnal adolygiad o'u busnes gyda Cyflymu Cymru i Fusnesau fel arbenigwyr pwnc. Roedd canfyddiadau'r adolygiad yn helpu penderfynu pa grant i wneud cais ar ei gyfer a pha becynnau oedd yn cael eu hariannu.

- Dywedodd y swyddogion nad oedd canlyniadau'r arolwg ond un elfen o'r wybodaeth yr oedden nhw'n ei defnyddio i helpu cyfeirio busnesau canol tref bach a chanolig at becynnau cymorth oedd ar gael iddyn nhw.
  Roedd setiau data eraill, fel gwybodaeth am nifer yr ymwelwyr, hefyd yn cael eu defnyddio. Roedden nhw hefyd yn annog aelodau i lywio'r Gwasanaeth os oedden nhw'n ymwybodol o eiddo busnes gwag yn eu wardiau nad oedd i'w gweld ar restr y Cyngor.
- Er bod pob ymdrech yn cael ei wneud i helpu busnesau lleol oroesi a ffynnu yn sgil y pandemig, roedd nifer o fusnesau wedi cael eu taro'n galed ac, yn dibynnu ar natur y busnes, yn parhau i wynebu anhawster am beth amser nes y byddai rhyw fath o 'fusnes arferol' a hyder ymysg defnyddwyr yn dychwelyd.

Ar ddiwedd trafodaeth drylwyr bu i'r Pwyllgor:

***BENDERFYNU**, yn amodol ar y sylwadau a'r arsylwadau uchod, derbyn y wybodaeth am waith sydd ar y gweill i gefnogi adferiad canol trefi'r Sir yn dilyn Covid-19, mentrau ardrethi annomestig cenedlaethol a lleihau nifer yr eiddo busnes gwag.*

**EGWYL – 11:35 - 11.45**

## 6 CYNLLUNIAU CYNLLUN TEITHIO LLESOL COVID-19

Roedd aelod o'r cyhoedd, Mr Stuart Davies, wedi gofyn am gael cyfarch y Pwyllgor, a chytunwyd iddo gael siarad ar ôl yr aelodau a'r swyddogion.

Cyflwynodd yr Aelod Arweiniol Gwastraff, Cludiant a'r Amgylchedd, y Cynghorydd Brian Jones, adroddiad ar y Cynllun Teithio Llesol. Roedd yr adroddiad yn rhoi manylion am y cynlluniau teithio llesol dros dro a roddwyd ar waith yn nifer o ganol trefi Sir Ddinbych ddiwedd 2020, ac oedd bellach wedi cael eu dileu.

Roedd yr adroddiad yn cynnig diweddariad pellach ar ganfyddiadau'r prosiect fel dilyniant i adroddiad a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Craffu Partneriaethau ym mis Rhagfyr 2020 ac oedd wedi'i gynnwys yn Atodiad A yr adroddiad.

Cafwyd crynodeb gan y Rheolwr Traffig, Parcio a Diogelwch ar y Ffyrdd ar gefndir y cynllun gwreiddiol. Roedd cynlluniau wedi cael eu datblygu ar gyfer canol trefi Dinbych, Llangollen, y Rhyl a Rhuthun. Cafodd y rhain gyllid gan LlC ym mis Mehefin 2020, ac eithrio Dinbych, a dynnwyd yn ôl. Roedd adroddiad Rhagfyr 2020, sydd wedi'i gynnwys yn Atodiad A, yn darparu mwy o fanylion am y grant a'r broses a ddilynwyd.

Yn dilyn oedi ar y cychwyn yn sgil argaeledd contractwr a phrinder deunyddiau, rhoddwyd cynlluniau Llangollen, y Rhyl a Rhuthun ar waith ym mis Tachwedd 2020.

**Cynllun Rhuthun** - Cafodd y cynllun yn Rhuthun broblemau cychwynnol y deliwyd a nhw'n bennaf drwy wneud mân addasiadau i'r cynllun. Cafwyd cwynion gan nifer o fusnesau a effeithiwyd yn uniongyrchol gan y mesurau am golli mannau parcio a llwytho y tu allan i'w heiddo. Er fod rhai mesurau lliniaru ar gyfer y colledion hynny wedi'u cynnwys o fewn y cynllun cyffredinol, ni ystyriwyd hyn yn ddigon gan rai perchnogion busnes. Yng ngoleuni'r pryderon hyn, cynhaliwyd cyfarfodydd gyda GAA Rhuthun a arweiniodd at i'r Aelod Arweiniol benderfynu tynnu'r cynllun yn ôl, a digwyddodd hyn ym mis Chwefror 2021.

**Cynllun Llangollen** - Ychydig iawn o adborth a gafwyd i gychwyn mewn ymateb i'r cynllun yn Llangollen yn dilyn ei gyflwyno yn gynnar ym mis Tachwedd 2020. Fodd bynnag, o fis Mawrth 2021 ymlaen, gwelwyd nifer o achosion o gerddwyr yn baglu dros sylfaeni'r pyst dros dro a osodwyd. Wrth i'r achosion hyn barhau, cafodd y pyst eu disodli gyda photiau plannu blodau cul a lwyddodd i roi diwedd ar yr achosion o faglu. Roedd y cynllun dros dro hefyd wedi arwain at gynnydd mewn cerbydau mawr yn gyrru ar y palmant er mwyn gallu mynd heibio rhwystrau a achoswyd gan y lôn draffig wrthwynebol.

Er gwaethaf y pryderon, roedd GAA Dyffryn Dyfrdwy yn awyddus i gadw'r cynllun dros dro gan fod y palmant ychwanegol a grëwyd yn ddefnyddiol iawn ar gyfer y nifer fawr o gerddwyr yn Llangollen. Roedd y farn hon hefyd wedi'i seilio ar yr adborth a gafwyd o ymgynghoriad ar-lein dilynol. Er y cafwyd safbwyntiau cymysg am y cynllun dros dro, nododd o leiaf 60% o'r ymatebwyr eu bod yn teimlo y dylai'r cynllun barhau oherwydd ei fod yn gweithio'n dda, neu oherwydd eu bod yn teimlo ei bod yn rhy gynnar i lunio casgliadau i'r gwrthwyneb. Nododd sylwadau gan swyddogion ar y safle fod digon o ddefnydd yn cael ei wneud o'r palmentydd ehangach, hyd yn oed y tu allan i'r cyfnodau brig, megis ar benwythnosau ac yn ystod gwyliau'r ysgol.

Yn dilyn llacio cyfyngiadau Covid Llywodraeth Cymru yng nghanol mis Awst 2021, ac ar ôl symud i Lefel Rhybudd 0, penderfynodd yr Aelod Arweiniol Gwastraff, Cludiant a'r Amgylchedd ddileu'r cynllun dros dro yn dilyn trafodaeth gydag aelodau lleol.

**Cynllun y Rhyl** - Ar ôl ei roi ar waith, ychydig iawn o adborth a gafwyd gan drigolion am y cynllun dros dro yn y Rhyl. Fodd bynnag, codwyd pryderon gan fusnesau lleol a ddywedodd bod colli parcio ar y stryd wedi cael effaith niweidiol ar eu busnesau. Cododd rhai trigolion ac aelodau lleol bryderon bod y cynllun wedi cynyddu ciwiau traffig ar gyffordd yr A548 Ffordd Wellington/Stryd Bodfor. Yn dilyn

ymgynghoriad gyda GAA y Rhyl, daeth yr Aelod Arweiniol i benderfyniad, a dilëwyd y cynllun ddiwedd Ebrill 2021.

O ganlyniad i'r ymateb arbennig o negyddol i gynllun Dinbych, cytunwyd i gynnal ymgynghoriad byr ar gyfer y pedwar cynllun dros dro arfaethedig.
Ac eithrio cynllun Dinbych, cafodd y tri chynllun arall eu cefnogi gan ymatebwyr yr ymgynghoriad ar y cyfan. Erbyn i'r prosiectau gael eu cyflwyno ddiwedd Hydref/dechrau Tachwedd, roedd nifer ymwelwyr cyfnod brig y gwanwyn/yr haf wedi gostwng ac roedd y "cyfnod atal byr" ym mis Hydref newydd ddigwydd. Oherwydd y tywydd oerach, ynghyd â chyfnod clo pellach rhwng 20 Rhagfyr 2020 a'r Gwanwyn, roedd nifer o'r canol trefi yn eithaf gwag. Felly roedd diben y cynlluniau dros dro hyn yn llai amlwg, yn enwedig gan fod hyn yn aml wedi dod ar draul parcio ar y stryd. Roedd hyn yn sicr yn ffactor ar gyfer dileu cynlluniau'r Rhyl a Rhuthun yn gynnar.

Cadarnhawyd bod CSDd wedi bod mewn trafodaethau â Llywodraeth Cymru ac wedi cyfleu rhai o'r problemau a'r heriau a wynebwyd mewn perthynas â'r cynlluniau.

Yn ystod y drafodaeth:

- Bu i aelodau'r Pwyllgor gydnabod er mai nod y cynllun brys a ariannwyd yn llawn gan LlC oedd helpu busnesau canol y dref yn ystod argyfwng cenedlaethol pan oedd rheolau cadw pellter cymdeithasol mewn grym, bod yr amserlenni tynn a'r rheolau llym oedd yn gysylltiedig wedi llesteirio ei gyflawniad a'i effeithiolrwydd cyffredinol.
- Dywedodd swyddogion bod yr awdurdodau lleol eraill a oedd wedi gweithredu'n gyflym heb ymgynghori â busnesau lleol er mwyn sefydlu'r cynlluniau'n gyflym, hefyd wedi cael eu beirniadu am eu gweithrediad a'u cyflawniad.
- Roedd aelodau lleol Llangollen o'r farn y bu'r cynllun yn llwyddiant yno, a'i fod wedi helpu cadw trigolion lleol ac ymwelwyr yn ddiogel yn ystod tymor twristiaid eithriadol o brysur yn yr ardal.
- Cafwyd trafodaethau rheolaidd wrth weithredu'r cynllun yng nghyfarfodydd Uwch Dîm Arwain y Cyngor, a bu awdurdodau lleol yn adrodd yn rheolaidd i LlC ar eu cynlluniau, eu llwyddiannau ac unrhyw wrthwynebiadau a heriau y bu'n rhaid iddyn nhw eu hwynebu.
- Byddai gwersi a ddysgwyd o'r ymarfer penodol hwn yn fuddiol wrth ddatblygu cynlluniau teithio llesol hirdymor yn y dyfodol gyda'r nod o fynd i'r afael ag effeithiau newid hinsawdd.

Ar y pwynt hwn, rhoddwyd cyfle i Mr Stuart Davies gyfarch y Pwyllgor Craffu Partneriaethau. Cyfeiriodd Mr Davies at yr adroddiad oedd yn ymwneud â Llangollen a oedd, yn ei farn ef, yn anghyflawn. Teimlai bod yr adroddiad wedi methu â chydnabod materion pwysig. Roedd yn cydnabod yr amserlen fer yr oedd rhaid gweithio iddi, ond teimlai y cytunwyd ar y cynllun mewn egwyddor heb ymgynghori ymlaen llaw â Chyngor Tref Llangollen nag aelodau'r cyhoedd. Aeth ymlaen i nodi nad oedd yr adroddiad yn cydnabod deiseb ag arni 600 o lofnodion wedi'u dilysu a oedd yn gwrthwynebu'r cynllun, a gyflwynwyd i swyddogion a chynghorwyr CSDd. Nododd bod 80% o'r busnesau lleol wedi gwrthwynebu'r cynllun. O ystyried nifer yr anafiadau i aelodau'r cyhoedd, roedd swyddogion a

chynghorwyr perthnasol CSDd wedi methu ag ymarfer diwydrwydd dyladwy drwy gofnodi asesiad risg a oedd yn rhoi ystyriaeth i'r perygl o anafiadau i'r cyhoedd, er i'r cyhoedd fynegi pryder am hyn o'r cychwyn cyntaf. Bu i ymgynghoriad cyhoeddus mis Gorffennaf gydnabod bod mwyafrif yr ymatebion yn nodi nad oedden nhw'n cael eu hannog i ddefnyddio mwy ar fesurau teithio llesol. Yn dilyn sawl anaf i'r cyhoedd ac er i Gyngor Tref Llangollen wneud cais am asesiad risg ar gyfer defnyddio amddiffynwyr lôn, ac yna potiau plannu, fel estyniad i gerddwyr ar briffordd gyhoeddus, ni chafwyd asesiad o'r fath. Anwybyddwyd pryderon cychwynnol gan y cyhoedd nes i gopïau o ffilm TCC a ffotograffau gan Mr Davies o'r damweiniau a ddigwyddodd gael eu hanfon at Aelodau Seneddol a'r Wasg. Ym marn Mr Davies, roedd Llangollen wedi cael rhywfaint o'r cyhoeddusrwydd gwaethaf posib o ganlyniad i'r wasg genedlaethol, gydag adroddiadau'n ymddangos ar y BBC ac yn y *Daily Mail*. Hyd yn oed wedyn, yn ei farn ef, roedd swyddogion CSDd yn parhau i asesu bod y cynllun yn addas i'r diben heb unrhyw ddogfennau na thystiolaeth wedi'i seilio ar ffeithiau i gefnogi eu datganiad. Aethpwyd ymlaen i addasu'r cynllun yn Llangollen, ar gost ychwanegol, gan wrthod ceisiadau'r cyhoedd i ddileu'r cynllun. Roedd cau Short Street yn rhan o'r cynllun ac fe seiliwyd hyn ar safbwyntiau personol gan ddyfynnu pryderon diogelwch amhenodol. Datgelodd ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth dilynol na fu unrhyw ddamweiniau yno yn y pum mlynedd diwethaf. Galwodd Mr Davies ar y Pwyllgor Craffu Partneriaethau i ofyn pam na chynhaliwyd asesiadau risg priodol, gan fod hynny wedi arwain at anafiadau difrifol i'r cyhoedd. Pam na roddwyd ystyriaeth i'r farn gyhoeddus a pham fod CSDd wedi ceisio datblygu rhywbeth nad oedd yn addas i'r diben yn y lle cyntaf? Dilëwyd cynllun teithio llesol Rhuthun, felly pam na ddigwyddodd hyn yn Llangollen?

Yn dilyn datganiad Mr Stuart Davies, cynigiodd y Cynghorydd Rachel Flynn bod y cyngor yn adolygu'r broses a ddefnyddiwyd i weithredu a dileu pob Cynllun Teithio Llesol Covid-19 yn Sir Ddinbych, ac eiliwyd hyn gan y Cynghorydd Joan Butterfield.

Cynhaliwyd pleidlais a chytunwyd yn unfrydol i dderbyn yr argymhelliad ychwanegol.

Yn dilyn trafodaeth fanwl ar bob agwedd ar y Cynlluniau, bu i'r Pwyllgor:

***BENDERFYNU: -*** *yn amodol ar y sylwadau a'r arsylwadau uchod, y byddai'n –*

*(i) derbyn y wybodaeth a ddarparwyd; ac yn*

*(ii) gofyn i'r Cyngor adolygu'r broses a ddefnyddiwyd i weithredu ac i ddileu pob Cynllun Teithio Llesol Covid-19 yn Sir Ddinbych, gyda golwg ar adnabod arferion da a gwersi i'w dysgu y gellid eu defnyddio wrth ddosbarthu ffrydiau cyllido brys tymor byr allai fod ar gael yn y dyfodol.*

## 7 RHAGLEN WAITH ARCHWILIO

Cyfeiriodd y Cydlynydd Craffu at yr adroddiad (a ddosbarthwyd ymlaen llaw) a oedd yn gofyn i'r aelodau adolygu rhaglen waith y Pwyllgor, a chyflwynodd y wybodaeth ddiweddaraf am faterion perthnasol.

Atgoffwyd yr Aelodau y dylen nhw ddefnyddio'r Ffurflen Cynnig Testun Craffu os oedd ganddyn nhw bwnc yr hoffen nhw iddo fod yn destun craffu.

Teimlai’r aelodau y bu’r sesiwn gynllunio busnes cyn y cyfarfod a gynhaliwyd y diwrnod blaenorol yn hynod fuddiol, gan ofyn am gael cynnal un tebyg cyn cyfarfod nesaf y Pwyllgor.

Felly:

***PENDERFYNWYD: -*** *yn amodol ar y sylwadau uchod –*

*(i) cadarnhau rhaglen gwaith i’r dyfodol y Pwyllgor; a*
*(ii) chynnal sesiwn friffio rithiol cyn cyfarfod nesaf y Pwyllgor.*

## 8 ADBORTH GAN GYNRYCHIOLWYR Y PWYLLGOR

Dim.

**DAETH Y CYFARFOD I BEN AM 12.48 PM**